# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 16-09)

**Dyddiad: 22 Mehefin 2009**
**Amser: 16.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 22 Mehefin 2009. Roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, David Melding AC, Joyce Watson AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AC.

### Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC288 - Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y Perthyn Disgyblion a Myfyrwyr iddynt) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 29 Mai 2009. Fe'u gosodwyd ar 2 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 24 Mehefin 2009

SLC289 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

SLC290 - Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

SLC291 - Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 2 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 4 Mehefin 2009. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

SLC292 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

SLC293 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2009. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

SLC294 - Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywogaethau Cadwraeth) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 5 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 30 Mehefin 2009

SLC297 - Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 9 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 1 Awst 2009

SLC298 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 8 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 10 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC295 - Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 9 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 30 Mehefin 2009

SLC296 - Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 9 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 30 Mehefin 2009

SLC299 - Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 10 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009

Ceir adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y

Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1 i 3 yr adroddiad hwn.

### Eitemau eraill o fusnes

### Mesurau'r DU

Cytunodd y Pwyllgor i graffu ar y Mesur Cydraddoldeb a'r Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir. Cytunodd yr Aelodau i wahodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr Brian Gibbons AC, i roi tystiolaeth ar y Mesur Cydraddoldeb yn y cyfarfod ar 6 Gorffennaf, ac i wahodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson AC a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Elin Jones AC i drafod y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir yn y cyfarfod ar 13 Gorffennaf.

Cytunodd y Pwyllgor i graffu ar y Mesur Llifogydd a Dŵr yn ystod tymor yr hydref.

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Mesur Tlodi Plant. Bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Mesur yn ystod tymor yr hydref.

### Y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru): ystyried yr adroddiad drafft

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod fel y gallai ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru).

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**22 Mehefin 2009 Atodiad 1**

# Atodiod 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### (SLC(3)-16-09)

### SLC295

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb y Cyngor 2007/10/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 9

2/119/EEC ar gyfer rheoli Clefyd Pothellog y Moch mewn deddfwriaeth ddomestig yng Nghymru. Caiff Rheoliadau tebyg eu gwneud yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Gweithdrefn: Negyddol

### Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae Rheoliad 41 yn nodi ei bod yn dramgwydd rhwystro unrhyw un sydd, wrth ei waith, yn gweithredu'r Rheoliadau hyn. Mae'r geiriau "to obstruct anyone" a ddefnyddir yn y testun Saesneg yn awgrymu y gallai'r rhwystro fod yn fwriadol neu'n anfwriadol. Fodd bynnag, y cyfieithiad o'r testun Cymraeg cyfatebol, "rhwystro'n fwriadol", yw "intentionally obstructs". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

O gofio bod y ddarpariaeth hon yn creu tramgwydd, ystyrir y dylid gwneud newid priodol un ai i destun Saesneg neu Gymraeg y Rheoliadau er mwyn sicrhau eglurder o ran sylwedd y tramgwydd.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**22 Mehefin 2009**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

### Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

**"**Dim ond achosion o rwystro bwriadol y dylid eu herlyn o dan Reoliad 41. Gan hynny, mae'r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau yn gywir a byddai o fantais i'r fersiwn Saesneg petai'r gair "intentionally" yn cael ei fewnosod drwy offeryn diwygio i egluro'r sefyllfa. Mae offeryn diwygio drafft wedi'i baratoi a'r anfon i'r gwasanaeth cyfieithu heddiw. Yn y cyfamser, gellir gorfodi rheoliad 41 pan fo person yn fwriadol yn rhwystro'r Rheoliadau rhag cael eu gorfodi am fod y dehongliad culaf yn bosibl o dan y naill fersiwn a'r llall. Dim ond pan fo erlyniad wedi'i ddwyn yn erbyn person am rwystro anfwriadol y byddai gwrthdaro rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg."

# Atodiad 2

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-16-09)**

**SLC296**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan  Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu paragraff 4(d) o Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/119/EC. Drwy ddiwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 ("y prif reoliadau"), ac yn unol â rheolau penodol, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwerthu ar y farchnad ddomestig unrhyw gig sy'n dod o foch ac sydd i'w fwyta gan bobl pan fydd y moch dan sylw wedi cael prawf positif gyda gwrthgorffynnau yn erbyn clefyd pothellog y moch, ond prawf negatif gyda'r feirws byw. Gwneir darpariaethau tebyg mewn perthynas â chig dan gyfyngiadau o ddofednod dan gyfyngiadau a fwriedir ar gyfer ei gyflenwi i'r farchnad ddomestig yn unig. Nod y diwygiadau yw lleihau'r risg o drosglwyddo clefyd i anifeiliaid drwy gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (y bwriedir eu bwyta gan bobl) yn ystod achosion o glefydau egsotig penodol ymhlith anifeiliaid.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.**

Yn nhestun Saesneg Rheoliad 4(a), dylid defnyddio "protection" yn lle "protected" gan mai dyma'r geiriad cywir ar gyfer y term a ddiffinnir yn y prif reoliadau. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**22 Mehefin 2009**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd a bydd yn diwygio'r Rheoliadau ar unwaith.

# Atodiad 3

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**(SLC(3)-16-09)**

**SLC299**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan  Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.**

**Teitl: Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009**

Mae'r Rheoliadau'n dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau i Reoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2007 fel y'u diwygiwyd ac yn darparu'r mesurau angenrheidiol i orfodi tri Rheoliad newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n cyflwyno neu'n diwygio'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer halogion penodedig arbennig mewn bwyd. Mae'r halogion hyn yn cynnwys deuocsinau, rhai metelau trwm a grŵp o gynnyrch milfeddygol a ddyluniwyd i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid.

**Gweithdrefn: Negyddol**

**Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.**

Rheoliad 2 (1) (dehongli): - yn y paragraff sy'n cyfeirio at Reoliad y Comisiwn 124/2009, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Commission Regulation (EC) No 124/2009". Yn y testun Cymraeg, y cyfeiriad cyfatebol yw "Rhif xxx/2008" -  Rheol Sefydlog 15.2 (vi)

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**22 Mehefin 2009**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a'i bod yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau cyn gynted â phosibl a sut bynnag erbyn diwedd 2009.